



**Cofnodion heb eu cadarnhau ar gyfer Cyfarfod Agored
Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl
Iechyd Cyhoeddus Cymru 8 Gorffennaf 2021, 09:30
Lleoliad: drwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Mohammed Mehmet	(MM)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Dyfed Edwards	(DE)	Cyfarwyddwr Anweithredol, a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol
Judi Rhys	(JR)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Hefyd yn bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu Bwrdd
Barbara Busby	(BB)	Ymgynghorydd Datblygu Sefydliadol (ymunodd ar gyfer eitemau 10 ac 11 ar yr agenda)
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Sicrwydd ac Archwilio
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Sgrinio a Diogelu Iechyd, a Chyfarwyddwr Meddygol
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl
Sarah Morgan	(SM)	Pennaeth Profiad Cyflogeion
Joe O'Brien	(JOB)	Rheolwr Datblygu Systemau'r Gweithlu, Pobl/Gweithlu/AD (ymunodd ar gyfer eitem 3 ar yr agenda)
Lisa Whiteman	(LW)	Pennaeth Datblygu, Trefniadaeth a Dysgu Sefydliadol
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd ochr y staff (ymunodd am 09:36 a gadawodd am 11:42)
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru
Ymddiheuriadau		

	Cofnodion Cyfarfod Agored y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl 8 Gorffennaf 2021 – heb eu cadarnhau
--	--

Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes Bwrdd
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr

Ysgrifenyddiaeth

Andrew Morton Swyddog Cymorth y Bwrdd

Dechreuodd y cyfarfod am 09:30

PODC 08/2021 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb a oedd yn bresennol, a dywedodd fod yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19 a'r canllawiau cenedlaethol cyfredol yn golygu bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddigidol.

Estynnodd MM groeso i MK i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i helpu â'r gwaith o greu cofnodion cywir, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf.

PODC 09/2021 Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi eu cynnwys ar y gofrestr Datgan Buddiannau.

Eitemau er Sicrwydd

PODC 10/2021 Diweddariad ar y gweithlu a Dangosfwrdd Perfformiad

Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad gan NL a JOB yn defnyddio data byw o'r Dangosfwrdd Perfformiad a Sicrwydd, gan nodi bod y data fel arfer yn cael eu diweddarau'n fisol, ond bod rhai data'n cael eu diweddarau'n wythnosol (fel y gwelir ar y dangosfwrdd).

Trafodwyd statws brechu staff; roedd y statws cyfredol yn dangos bod 78% o staff wedi cael eu brechu'n llawn, ac roedd 88% o staff wedi cael y dos cyntaf. Holodd y Pwyllgor ynghylch y staff a oedd heb eu brechu yn ôl y data a oedd yn gweithio mewn rolau rheng flaen, a gofynnwyd am sicrwydd bod y risgiau wedi eu hasesu. Dywedodd NL fod trafodaethau wedi'u cynnal â RBW ynghylch hyn, ac y cafwyd trafodaeth ar lefel leol i sicrhau bod staff a chleifion yn ddiogel.

Dyddiad: 8 Gorffennaf 2021	Fersiwn: v0.0	Tudalen: 2
-----------------------------------	----------------------	-------------------

Cytunwyd y byddai NL, wrth drafod â RBW, yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y dadansoddiad o'r data a phryderon posibl, yn enwedig o ran staff rheng flaen, mewn perthynas â'u statws brechu a pha oblygiadau a fu i ddiogelwch cleifion wrth i staff sydd heb eu brechu barhau i weithio yn eu rôl rheng flaen. Byddai'r diweddariad hwn yn cael ei gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd MK i hyn gael ei anfon at y Pwyllgor cyn y cyfarfod nesaf, gan gynnwys diweddariad ar yr asesiad risg a gwblhawyd ar gyfer staff a oedd heb eu brechu wrth ymgymryd â'u rôl, ac unrhyw bryderon a godwyd yn sgil yr asesiad hwnnw.

Camau gweithredu: NL/RBW

Roedd y data ynghylch salwch yn dangos cyfradd salwch is na'r arfer; awgrymodd NL ei bod yn debyg mai'r rheswm am hyn oedd y trefniadau gweithio gartref yn ystod y pandemig, a'r hyblygrwydd yn sgil hynny. Dywedodd y cedwir golwg fanwl ar salwch yn sgil straen neu orbryder, yn enwedig yn y meysydd craidd hynny lle mae staff wedi ysgwyddo mwy o bwysau na'r arfer wrth wneud eu gwaith.

Gofynnodd y Pwyllgor pam yr oedd y gyfradd arfarnu perfformiad wedi gostwng yn is na'r targed. Dywedodd NL fod hyn yn cael ei adolygu a'i fonitro gan y Tîm Busnes Gweithredol, fodd bynnag canolbwyntiwyd ar y sgysiau un i un rhwng staff a'u rheolwyr ynghylch llesiant, a chafodd hyn ei gydnabod gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Cytunwyd y byddai NL yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod nesaf yn egluro'r materion a godwyd ac yn sôn am y datblygiadau pellach i'r dangosfyrdau.

Camau gweithredu: NL

Diolchodd MM i JOB ac NL am y ffordd ddefnyddiol y dangoswyd y dangosfwrdd, gan ddweud bod y data byw o gymorth i'r Pwyllgor.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Gael sicrwydd** yn sgil y diweddariad, a;
- **Nodi'r** camau nesaf.

PODC 11/2021 | Y Gymraeg

Cafodd y Pwyllgor adroddiad (Cyf 4. PODC 080721) ynghylch y sefyllfa gyfredol o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys sut yr oedd y sefydliad yn bodloni ei rwymedigaethau statudol, a'r camau unioni sy'n cael eu cymryd.

Soniodd SM am yr agweddau a ganlyn ar yr adroddiad:

- Roedd y gofyniad i ateb galwadau allanol yn Gymraeg yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd gan y Pennaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth, yr adran Gwybodeg er mwyn canfod datrysiaid TG;

Commented [C1]: These 2 sentences say the same thing but in a different way

- Roedd y gofyniad i gyhoeddi pob swydd-ddisgrifiad, manyleb y person a hysbysebion swydd yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg yn esgor ar broblemau o ran cost cyfieithu. Y bwriad oedd creu llyfrgell fewnol o swydd-ddisgrifiadau wedi'u safoni i sicrhau y cânt eu cyfieithu ar yr adeg y cânt eu cynnwys yn y llyfrgell (a fydd wedyn yn golygu mai dim ond unwaith y byddai angen talu'r ffi am gyfieithu yn hytrach na sawl gwaith).
- Roedd Cynllun Ymgynghori Clinigol bellach wedi cael ei ddrafftio; roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi bod yn cydweithio â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i ddatblygu eu cynlluniau, ac roedd hyn yn golygu y gellid adolygu a symleiddio cynllun gwreiddiol Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Mae'r mater o sicrhau bod staff yn gallu pennu eu dewis iaith ar gyfer deunyddiau cyfathrebu wrthi'n cael ei ddatrys.
- Mae tudalen Sharepoint gyda chronfa ddata wedi cael ei datblygu i fynd i'r afael â'r gwahanol safonau mewn perthynas â dewis iaith wrth gyfathrebu.
- Roedd yr arolwg ffôn 'Sut Wyt Ti?', a gynhaliwyd gan gwmni allanol, wedi bod yn destun cwyn y mae Comisiynydd y Gymraeg wrthi'n ymchwilio iddi. Fe wnaeth aelod o'r cyhoedd a oedd yn siarad Cymraeg hefyd godi mater drwy'r broses 'mynegi pryder', gan awgrymu newidiadau i'r ffordd yr atebir galwadau ar hyn o bryd, ac mae'r newidiadau hynny bellach yn cael eu cynnwys yn y weithdrefn. Fodd bynnag, fe wnaeth hyn godi cwestiynau ynghylch caffael a'r rhwymedigaethau mewn perthynas â'r Gymraeg, ac ymchwilir ymhellach i hyn.
- Cafodd y cytundeb â'r Cydwasanaethau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu ei wella i ganiatáu cynnydd o 50% yn y ddarpariaeth a oedd ar gael i Iechyd Cyhoeddus Cymru, o 0.5 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn i 1.0 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn, gan arwain at well cymorth ac ymateb cyflymach i ymholiadau.

Trafododd y Pwyllgor y materion a ganlyn:

- Roedd y data yn dangos bod y ffigur cydymffurfio â sgiliau Cymraeg ar y Cofnod Staff Electronig wedi gostwng yn ddiweddar. Awgrymodd y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cynnwys canran sgiliau Cymraeg pobl yn y sefydliad mewn adroddiadau yn y dyfodol i gynnig cyd-destun ehangach, ynghyd â'r ganran a adroddir ar hyn o bryd o ran y bobl sydd wedi cwblhau'r gofyniad sgiliau ar y Cofnod Staff Electronig.
- Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ystyried dull mewnol o hybu sgiliau Cymraeg a chyfieithu, gan y teimlir y gallai'r opsiwn hwnnw dalu ar ei ganfed yn y tymor hwy wrth hybu'r Gymraeg a chefnogi pobl i'w defnyddio o fewn y sefydliad.

Nododd y Pwyllgor ei fod yn cefnogi'r gwaith sydd ar y gweill i'r perwyl hwn, a phwysleisiodd y dylid manteisio ar bob cyfle i normaleiddio'r Gymraeg o

fewn y gweithle, gan gynnwys defnyddio technoleg lle y bo'n bosibl. Diolchodd MM i SM, ac ategodd gefnogaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor i'r gwaith o hybu a defnyddio'r Gymraeg ar draws y sefydliad.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

PODC 12/2021 | **Diweddariad ar recriwtio gan gynnwys Achos Busnes yr Adran Diogelu Iechyd**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad (Cyf 5. PODC 080721) yn cynnwys y statws recriwtio cyfredol ac Achos Busnes yr Adran Diogelu Iechyd.

Rhoddodd NL sicrwydd i'r Pwyllgor fod proses recriwtio gyson yn parhau, roedd rhai aelodau o staff wedi cael eu recriwtio ond wedi methu ag ymuno ar unwaith oherwydd cyfnodau rhybudd. Cafodd y camau o'r broses recriwtio eu crynhoi yn Nhabl 4 o'r atodiad, ac roedd tabl 6 yn dangos y rolau sydd heb eu cymeradwyo eto.

Cytunodd NL i lunio set ddata i'w chynnwys fel rhan o'r Diweddariad Recriwtio nesaf mewn perthynas ag Achos Busnes yr Adran Diogelu Iechyd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf, gan ddangos o ble y cafodd staff newydd eu recriwtio (yn fewnol neu'n allanol).

Camau gweithredu: NL

Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd aelodau o staff a benodwyd o'r newydd yn cael sesiynau cynefino a chefnogaeth. Rhoddodd NL sicrwydd i'r Pwyllgor fod sesiynau cynefino corfforaethol a sesiynau cynefino lleol yn cael eu cynnal, a bod ei Gyfarwyddiaeth ef wrthi'n rhagweithiol yn rheoli'r sefyllfa i sicrhau bod staff newydd yn cael eu cefnogi.

Diolchodd MM i NL am yr adroddiad, a chroesawodd yr adroddiad pellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor fis Hydref 2021.

Eitem i'w Hargymell

PODC 13/2021 | **Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl**

Derbyniodd y Pwyllgor y papur ar yr Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl (Cyf 6. PODC 080721). Eglurodd LB fod y Bwrdd wedi cymeradwyo diwygiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella ar 27 Mai 2021; gan gynnwys trosglwyddo materion yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch o'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella. Cafodd y newidiadau hyn eu gwneud i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Ni chynigiwyd rhagor o newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Ystyried** y Cylch Gorchwyl;

- **Cytuno i argymell** i'r Bwrdd na wneir unrhyw newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

Eitemau i'w Cymeradwyo

PODC 14/2021 | **Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd**

Derbyniodd y Pwyllgor bapur Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd (Cyf. 7 PODC 080721 Papur ar Gadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd).

Eglurodd MM i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn gofyn bod Polisi Datrysiad a Pharch Cymru Gyfan yn cael ei dderbyn erbyn 1 Mehefin 2021, sef cyn cyfarfod y Pwyllgor y tro hwn; cafodd hyn ei dderbyn drwy Gam Gweithredu'r Cadeirydd, a chafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor ei gadarnhau, yn unol â'r broses a amlinellir yn y Rheolau Sefydlog.

Fe wnaeth y Pwyllgor

- **Nodi'r** achlysur lle y cymerwyd Camau Gweithredu gan y Cadeirydd;
- **Cael Sicrwydd** y cymerwyd y camau gweithredu yn unol ag Adran 2 o'r Rheolau Sefydlog;
- **Cadarnhau** cam gweithredu'r Cadeirydd i gymeradwyo'r Polisi Datrysiad a Pharch Cymru Gyfan.

PODC 15/2021 | **Cofnodion, Cofnod o'r Camau Gweithredu a Materion yn Codi**

Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod y Pwyllgor ar 21 Ebrill 2021 a'r Cofnod o Gamau Gweithredu (Cyf 8. PODC 080721).

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Ebrill 2021 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.
- **Cymeradwyo'r** penderfyniad i gau dau gam gweithredu ar y cofnod o gamau gweithredu.

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

PODC 16/2021 | **Cynllun Gwaith**

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith (Cyf 9.PODC 080721).

Dywedodd LB wrth y Pwyllgor, yn dilyn trafodaethau â chydweithwyr, ac yn sgil gofynion statudol ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg, y gallai fod angen defnyddio Cam Gweithredu'r Cadeirydd cyn y cyfarfod nesaf.

Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai Straeon Staff yn cael eu hailgyflwyno i'r cyfarfod. Dywedodd LB y byddai hyn yn cael ei ailgyflwyno ar y cyd â'r Pwyllgorau eraill a'r Bwrdd.

Derbyniodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith.

Commented [C2]: Number missing here in the English. Assumed it should be 8?

Eitemau i'w trafod

PODC 17/2021 | **Strategaeth Pobl**

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar y Strategaeth Pobl (Cyf 10.PODC 080721). Amlinellodd BB y Strategaeth Pobl a oedd wedi cael ei chymeradwyo cyn y pandemig ym mis Ionawr 2020. Roedd gan Strategaeth Pobl 2020-30 naw o themâu nodweddiadol; roedd cysylltiad agos rhwng y thema ganolog, sef Diwylliant Ysbrydoledig ac Arweinyddiaeth Dosturiol, a'r wyth thema arall.

Amlygodd y cyflwyniad y rhyngddibyniaeth rhwng y Strategaeth Pobl a strategaethau eraill gan gynnwys: y Cynllun Strategaeth Cydraddoldeb; y Strategaeth Ansawdd a Gwella, Ein Dull Ymgysylltu; y Strategaeth Ddigidol; y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso; a'r Weledigaeth ar gyfer Defnyddio Gwybodaeth a'r Strategaeth Rynghwladol (2017).

Awgrymodd y Pwyllgor fod angen eglurder ynghylch pa adran neu gyfadran sy'n arwain ar strategaeth unigol, a phwy sy'n bennaf cyfrifol am y cysylltiadau rhwng gwahanol rannau'r strategaethau.

Diolchodd MM i BB am y cyflwyniad defnyddiol.

PODC 18/2021 | **Ein Sgwrs – Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol**

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol (Cyf 11. PODC 080721).

Rhoddodd LW y crynodeb a ganlyn:

- Amlinelliad o'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymarfer 'Ein Sgwrs' i ymgysylltu â staff; fe wnaeth 200 o aelodau o staff gyfrannu at yr ymarfer ac ymateb i'r cwestiynau;
- Crynhoi'r prif ganfyddiadau a'r ymatebion cyffredin gan gynnwys beth weithiodd yn dda a beth yr oedd y staff fwyaf balch ohono;
- Y camau nesaf a sut y gellid bwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Trafododd y Pwyllgor y materion a ganlyn:

- Sylwadau cadarnhaol ynghylch yr hyn a ddysgwyd o'r effeithiau positif a welwyd yn sgil yr ymateb i'r pandemig;
- Awgrym i ystyried enghreifftiau y tu hwnt i'r GIG, ac i ddefnyddio enghreifftiau o sefydliadau elusennol yn y trydydd sector er enghraifft, lle gwneir gwaith tebyg;
- Nodi maint y sefydliad gyda thua 2000 o aelodau o staff, a bod angen ystyried y data gan y 200 o staff a ymatebodd i'r cwestiynau yn y cyddestun hwnnw.

Rhoddodd NL grynodedb o'r camau nesaf yn y broses hon, gan egluro y byddai canfyddiadau manwl yr ymarfer yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol ym mis Gorffennaf 2021, i benderfynu a chytuno ar y camau i'w cymryd. Byddai

Commented [C3]: English says QSIC – assumed it should be PODC?

crynodeb o'r camau a gytunir, ynghyd ag unrhyw elfennau strategol i'w trafod gan y Pwyllgor, yn cael eu darparu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Hydref.
Camau gweithredu: NL

Diolchodd MM i LW am y gwaith ardderchog a wnaed, ac am y cyflwyniad manwl llawn gwybodaeth i'r Pwyllgor. Roedd y Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael diweddariad ar gynnydd y gwaith hwn yn ei gyfarfod nesaf ym mis Hydref 2021.

PODC 19/2021	Materion Gweinyddol i Gloi
---------------------	-----------------------------------

19.1/2021	Unrhyw Fater Arall
------------------	---------------------------

Dim

19.2/2021	Adborth i'r Pwyllgor
------------------	-----------------------------

Byddai cais am adborth ar y cyfarfod yn cael ei anfon drwy e-bost.

19.3/2021	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf
------------------	---------------------------------

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mawrth 14 Hydref 2021

Daeth y sesiwn agored i ben am 11:45

Commented [C4]: As above